At sylw: Mr E Thomas
Trefnydd y Ddeiseb – Ymgyrch Neuadd Gymunedol Aberaman

**Ein Cyf/Our Ref:** LMD/SW **Dyddiad/Date:** 6 Ionawr 2026

Annwyl Mr Thomas

**Parthed: Ymateb i Ddeiseb ynglŷn â Chanolfan i'r Gymuned yn Aberaman**

Diolch am eich deiseb a dogfennau ategol sy'n gofyn i'r Cyngor adeiladu 'canolfan i'r gymuned' ar safle hen Neuadd a Sefydliad Aberaman. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod bron i 200 o bobl wedi llofnodi'r ddeiseb yn gofyn am gamau gweithredu ac ysgrifennaf atoch i amlinellu ymateb y Cyngor.

Cydnabyddir arwyddocâd hanesyddol Neuadd Aberaman, a losgwyd mewn tân yn 1994, yn llwyr. Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi pwysigrwydd cyfleusterau sydd ar gael i'r gymuned a'r wybodaeth fanwl rydych chi wedi'i chyflwyno yn rhan o gais am ganolfan newydd i'r gymuned yn Aberaman.

Mae gohebiaeth flaenorol â chi wedi esbonio bod y Cyngor yn cydnabod 7 Canolfan Cydnerthedd y Gymuned yn Rhondda Cynon Taf, ac mae nifer o'r rhain yn cael eu cynnal gan sefydliadau eraill, gan gynnwys y sector gwirfoddol. Dydy hi ddim yn wir bod gan bob ward yn RhCT Ganolfan Cydnerthedd y Gymuned, ac mae datblygiad y canolfannau hyn dros y blynyddoedd diwethaf wedi ceisio bodloni angen y boblogaeth a sicrhau bod canolfannau ar gael mewn ardaloedd sydd â chysylltiadau trafnidiaeth da er mwyn i drigolion o ardaloedd ehangach fanteisio ar y gwasanaeth maen nhw'n ei ddarparu. Mae rhagor o wybodaeth am y canolfannau hyn ar gael ar ein gwefan: Canolfannau Cydnerthedd y Gymuned | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Wedi dweud hynny, rydych chi'n gywir wrth nodi bod nifer o wardiau yn RhCT yn elwa ar gyfleusterau cymunedol hirsefydlog eraill, gyda'r rhan fwyaf ohonyn nhw'n cael eu cynnal yn annibynnol gan sefydliadau gwirfoddol neu bwyllgor rheoli ar ran y Cyngor. Er y cydnabyddir nad oes gan Aberaman adeilad penodol i'r gymuned ar hyn o bryd, mae nifer o leoliadau i'r gymuned yn yr ardal sydd â chysylltiadau trafnidiaeth da, gan gynnwys Cynon Linc yn Aberdâr, y gall trigolion ledled Cwm Cynon, gan gynnwys Aberaman, ei ddefnyddio.

Trosodd

**Louise Davies**
**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymuned**
**Director of Community Services**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**
**Rhondda Cynon Taf County Borough Council**
Llawr 4, 2 Llys Cadwyn, Stryd y Taf,
Floor 4, 2 Llys Cadwyn, Taff Street,
Pontypridd, CF37 4TH
Ebost:Cyfarwyddwr.iechydycyhoedd@rctcbc.gov.uk
Email: Director.PublicHealth@rctcbc.gov.uk

DIOGELU DATA PROTECTION
MAE EICH DATA O BWYS www.rctcbc.gov.uk/diogeludata
YOUR DATA MATTERS www.rctcbc.gov.uk/dataprotection
hyderus o ran anabledd CYFLOGWR
disability confident EMPLOYER

O ran hen Neuadd Aberaman, nodaf ddogfen 1995 sy'n dangos bwriad Cyngor blaenorol i drafod trosglwyddo rhydd-ddaliad y tir gyda'r perchennog ar y pryd. Fodd bynnag, deallaf fod y tir yn parhau i fod yn eiddo preifat. Rydych chi hefyd wedi cyfeirio at waith a gafodd ei wneud dros 30 o flynyddoedd yn ôl gan yr hen Gyngor Bwrdeistref Cwm Cynon ac wedi darparu papurau sy'n dangos astudiaeth dichonoldeb 1998, a nododd amcangyfrif o £285,262 ar gyfer costau adeiladu canolfan newydd i'r gymuned ar safle Neuadd Aberaman (ddim yn cynnwys ffioedd proffesiynol a chostau cynllunio), a chyfanswm amcangyfrifedig o £320,000-£350,000 ar yr adeg honno.

Wrth addasu'r cyfanswm hwnnw i gynnwys chwyddiant a'r safonau adeiladu diweddaraf, cost amcangyfrifedig cyfleuster tebyg heddiw fyddai rhwng £750,000 a £1,000,000, gan ddibynnu ar fanylebau y dyluniad, gofynion cynaliadwyedd a nodweddion hygyrchedd. Hefyd, byddai costau refeniw parhaus sylweddol mewn perthynas ag unrhyw adeilad. Does dim cyllid wedi'i neilltuo at y diben hwn gan y Cyngor nac unrhyw sefydliad arall ar hyn o bryd.

Er bod fframwaith polisi'r Cyngor yn cefnogi cymunedau cryf, bywiog a mynediad teg at wasanaethau, rhaid i bob prosiect cyfalaf newydd gael ei ystyried o fewn cyfyngiadau cyllid sydd ar gael a blaenoriaethau strategol, ac mae hyn yn gofyn am sylfaen dystiolaeth glir i lywio unrhyw benderfyniad. Mae'r Cyngor yn parhau i ymrwymo i weithio gyda sefydliadau cymunedol a gwirfoddol i gefnogi gweithgareddau a arweinir gan y gymuned a mynediad at gyfleusterau, a dyma ethos ein Gwasanaeth Datblygu'r Gymuned RhCT Gyda'n Gilydd – Cefnogi Cymunedau a Thrigolion i Ffynnu | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Dydy hyn ddim yn golygu darparu cyfleusterau sy'n eiddo i'r Cyngor ac sy'n cael eu rheoli gan y Cyngor ym mhob cymuned; rhaid i unrhyw ddatblygiad newydd fod yn seiliedig ar dystiolaeth o angen y boblogaeth a gwerthusiad o'r opsiwn gorau i fodloni'r angen hwnnw.

Mae datblygiadau lleoliadau cymunedol diweddar yn RhCT, gan gynnwys rhai Canolfannau Cydnerthedd y Gymuned, wedi bod yn bosibl trwy gyllid allanol wedi'i sicrhau gan grwpiau a arweinir gan gymunedau sydd wedi'u sefydlu i fod yn rhai 'nid er elw' neu gan sefydliadau'r sector gwirfoddol. Mae hyn wedi'u galluogi i gyflwyno cais llwyddiannus am fuddsoddiad cyfalaf er mwyn cyflawni eu hamcanion a sicrhau cynaliadwyedd eu prosiect. Hyd yn hyn, dydy'r rheiny yn Aberaman a gymerodd ran yn y trafodaethau cychwynnol gyda'r Cyngor am sefydlu grŵp ffurfiol at y diben hwn ddim wedi datblygu eu cynlluniau, ond mae'r Cyngor yn parhau i fod yn agored o ran cynnig cyngor i unrhyw grŵp sy'n dymuno gwneud hynny.

Er mwyn bwrw ymlaen â materion fel y cynigir yn y ddeiseb, bydd swyddogion y Cyngor yn cefnogi aelodau lleol, a hwythau'n arweinwyr yn y gymuned, a cheisio cefnogaeth gan bartneriaid y sector gwirfoddol, gan gynnwys Interlink RCT, i ymgymryd â gwaith pellach gyda'r gymuned ehangach. Bydd hyn yn cynnwys deall anghenion a dyheadau'r gymuned, a chynnwys trigolion mewn trafodaethau am y math o ased cymunedol a fyddai o fudd iddyn nhw. Bydd ein gallu i gwblhau'r gwaith pellach hwn yn dibynnu ar gyfranogiad y gymuned a bydd unrhyw argymhellion sy'n

dod i'r amlwg o ganlyniad i'r gwaith hwn yn parhau i fod yn destun penderfyniad pellach gan y Cyngor, yn unol â blaenoriaethau strategol.

Yn rhan o'r gwaith hwn, bydd y Garfan Datblygu'r Gymuned yn trin a thrafod sut y gallai adeiladau presennol yn yr ardal gael eu defnyddio at y dibenion hynny. Ni chynigir ymgymryd ag unrhyw waith dichonoldeb newydd ar adeiladu neuadd gymunedol ar safle hen Neuadd a Sefydliad Aberaman.

I gloi, mae eich deiseb wedi cael ei chofnodi'n ffurfiol a bydd deilliant y gweithgaredd ymgysylltu arfaethedig â'r gymuned yn cael ei ystyried yn rhan o broses cynllunio strategol y Cyngor fel y bo'n briodol. Dydy hyn ddim yn golygu bod y Cyngor wedi ymrwymo'n ffurfiol i ddod o hyd i gyllid cyfalaf at y diben hwn ond rydyn ni wedi ymrwymo i gefnogi unrhyw uchelgais gan y gymuned i greu sefydliad a arweinir gan y gymuned sy'n gallu bwrw ymlaen â'r nod hwn yn annibynnol.

Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion gysylltu â'r Cynghorydd S Evans, y Cynghorydd T Williams a'r Cynghorydd J Cook i ddatblygu'r gwaith ymgysylltu. Bydd gan y rheiny a drefnodd y ddeiseb, a'i chefnogi, gyfle i gymryd rhan yn y gwaith hwnnw yn y misoedd nesaf.

Yn gywir,



**Louise Davies**
**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymuned**

Copïau:

Y Cynghorydd Sheryl Evans; Y Cynghorydd Tina Williams; Y Cynghorydd Julie Cook